



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Sgrinio Cyn Geni **Cymru**
Antenatal Screening **Wales**

Adroddiad Blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru

2019-2022

Fersiwn 1.0

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in
English



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Manylion cyhoeddi

Teitl: Adroddiad Blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019 -2022

Dyddiad: Tachwedd 2024

ISBN: 978-1-83766-513-6

Manylion cyswllt

Mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Darperir manylion cyswllt sy'n wynebu'r cyhoedd ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru yn ei gyfanrwydd ar ddiwedd yr adroddiad.

Gwybodaeth am hawlfraint

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

This document is also available in English.

Tudalen Gynnwys

NEGESEUON ALLWEDDOL I'R CYHOEDD	4
CRYNODEB GWEITHREDOL	5
CYFLWYNIAD.....	7
Y TÎM.....	8
YR HYN Y MAE'R TÎM WEDI'I GYFLAWNI – 2019-2022	11
SGRINIO CYN GENI YN YSTOD PANDEMIG COVID-19.....	12
RHAGLENNI PENODOL.....	19
CRYNODEB.....	30

Negeseuon allweddol i'r cyhoedd

Ewch yn brydlon at eich bydwraig er mwyn cael help i wneud y dewisiadau gorau yn eich beichiogrwydd.

- Mae'r prawf sgrinio cyn geni'n rhoi gwybodaeth bwysig i chi am eich iechyd chi ac iechyd eich babi.
- Trefnwch apwyntiad gyda bydwraig cyn gynted ag y byddwch yn dod i wybod eich bod yn feichiog.
- Byddwch chi'n cael [gwybodaeth](#) a fydd yn eich helpu i ddewis a fyddwch chi'n cymryd rhan yn y broses sgrinio cyn geni.
- Fel rhan o'ch gofal cyn geni arferol bydd y fydwraig yn rhoi gwybod i chi am y gwahanol brofion y gallwch chi eu cael a bydd yn ateb eich cwestiynau.
- Nid yw profion sgrinio cyn geni'n gwbl gywir bob tro ac maent yn gallu methu rhai cyflyrau.
- Ar ôl eich prawf sgrinio cyn geni efallai byddwch chi'n cael cynnig o fwy o brofion a/neu driniaeth.

I ddysgu rhagor:

Ewch i: icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-cyn-geni-cymru

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Sgrinio Cyn Geni Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2022. Mae'r adroddiad cryno hwn yn amlygu cyflawniadau'r tîm ac yn rhoi cyfle i ni fyfyrion ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr ledled Cymru, ac mae'n esbonio'r amrywiaeth eang o waith a wnaed ar gyfer yr wyth rhaglen sgrinio cyn geni.

Sefydlwyd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i sefydlu polisiau, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu sgrinio yn unol â'r polisiau, y safonau a'r protocolau fel rhan o ofal cyn geni arferol.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu cyfnod pandemig Covid-19, pan dderbyniwyd parhau â sgrinio cyn geni oherwydd natur sensitif o ran amser y profion a gynigir. Ar gyfer gwasanaethau cyn geni, cafwyd ymateb cynhwysfawr gan bob asiantaeth ar draws systemau iechyd a gofal lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol i sicrhau bod modd parhau i ddarparu pob gwasanaeth. Addasodd tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru i angen brys i gynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei ymateb brys wrth barhau i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau y gellid darparu gwasanaethau sgrinio cyn geni yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn hynod ddiolchgar am y ffordd y gwnaeth staff byrddau iechyd ymateb drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau. Er gwaethaf yr heriau niferus a wynebwyd gan fyrdau iechyd yng Nghymru, roeddent yn gallu parhau i ddarparu sgrinio cyn geni.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisiau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn galluogi menywod yng Nghymru i gael gafael ar wasanaethau sy'n gweithio yn ôl arferion gorau ac mae'n sicrhau gwasanaeth sgrinio cyn geni teg. Yn dilyn yr adolygiad o'r [Polisi, Safonau a Phrotocolau](#), cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i diweddarau ar 5 Awst 2019.

Gwnaethom ddatblygu nifer o adnoddau e-ddysgu i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol, sy'n darparu'r rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru. Ymhlith yr adnoddau a ddatblygwyd roedd –

- Adnodd sgrinio tri mis cyntaf ar gyfer sonograffwyr
- Sgan uwchsaïn anomaledd y ffetws 18⁺⁰ i 20⁺⁶ wythnos
- Modiwl e-ddysgu calon y ffetws Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Gwnaethom ymestyn y profion cynenedigol heb lawdriniaeth (NIPT) a gynigir i feichiogrwydd gefeilliaid â chanlyniad sgrinio siawns uwch ar gyfer syndrom Down neu syndrom Edwards/Patau a sefydlu Bwrdd Gwerthuso i fonitro cyflwyniad gwerthusol NIPT.

Gweithredodd Sgrinio Cyn Geni Cymru newidiadau llwybr ar gyfer rheoli coluddyn ecogenig ynysig a nodir yn y sgan anomaledd y ffetws Sicrhaodd y newid hwn fod pob beichiogrwydd risg uchel yn cael eu hatgyfeirio'n amserol i feddysgaeth y ffetws ar gyfer cwnsela, cymorth angenrheidiol ac i ystyried eu hopsiynau.

Gwnaethom weithio gyda byrddau iechyd i weithredu 'Digidol yn Gyntaf' ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am sgrinio cyn geni a newydd-anedig, gyda phontio ffurfiol ledled Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi 2022.

Gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol a chydag ymrwymiad a chymorth rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau gan gynnwys pob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau i sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd y rhaglen sgrinio cyn geni mewn hinsawdd o ansicrwydd ac yn aml mewn amgylchedd heriol gyda llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.



Cyflwyniad

Mae gwasanaethau mamolaeth y byrddau iechyd yng Nghymru yn cynnig profion sgrinio cyn geni i fenywod beichiog fel rhan o'u gofal cyn geni. Mae amryw o wahanol resymau dros gynnig profion sgrinio cyn geni, ac mae'r rhain yn gwneud sgrinio cyn geni yn rhaglen gymhleth sydd â sawl diben gwahanol ac ystyriaethau a goblygiadau moesegol unigryw. Mae cefnogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus personol am eu dewisiadau sgrinio cyn geni yn bwysig yn ystod beichiogrwydd.

Y diben y cytunwyd arno ar gyfer y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru yw:

- canfod cyflyrau penodol sy'n bresennol naill ai yn y fam neu yn y babi sy'n debygol o effeithio ar iechyd y naill neu'r llall, lle mae dull effeithiol o ymyrryd neu driniaeth ar gael ar eu cyfer.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwelliannau o ran safon y sgrinio cyn geni a gynigir i fenywod. Mae'r model o ddarpariaeth sgrinio yng Nghymru yn unigryw i'r DU. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi byrddau iechyd i gyflawni pob agwedd ar y rhaglen sgrinio cyn geni, drwy strwythur rhwydwaith clinigol a reolir. Mae hyn yn cynnwys

- Cynllunio,
- Datblygu polisi,
- Strwythurau llywodraethu,
- Fframweithiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd,
- Addysg.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi sefydlu polisiâu, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd â phrofiad helaeth o reoli a darparu rhaglenni sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu Rhwydwaith Rheolaeth Glinigol Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cyn geni ers 2003. Mae'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol a'r grwpiau cynghori penodol i raglen yn darparu trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhwydwaith. Y bwrdd iechyd sy'n darparu gofal sy'n ymgymryd â'r ddarpariaeth sgrinio cyn geni. Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru yn darparu unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni, nac yn eu rheoli'n uniongyrchol.


Y tîm

Yn ystod 2019-2022, newidiodd cyfansoddiad tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn ymateb i ddatblygiadau'r gweithlu a newidiadau o ran adolygu gwasanaethau. Mae tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cynnwys:

- Pennaeth y Rhaglen (0.8wte)
- 3 Chydlynnydd Rhaglen – 2 fydwraig (1.6wte) ac 1 radiograffydd/sonograffydd (0.8wte)
- Rheolwr Cymorth i'r Rhaglen (1.0wte) ar gyfer y 3 rhaglen sgrinio i Famau a Phlant
- Rheolwr Cymorth Rhaglen Cynorthwyol (1.0wte) ar gyfer y 3 rhaglen sgrinio i Famau a Phlant
- Cymorth Gweinyddol (1.0wte) ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, gwnaeth y pedwar aelod o'r tîm sgrinio cyn geni sefydledig ymddeol o swyddi. Roedd y rhain yn cynnwys y Pennaeth Rhaglen, dau Gydlynnydd Rhaglen (un yn dychwelyd i'r gwaith) a'r Cydlynnydd Sgrinio Uwchsain Obstetrig.

Antenatal Screening Wales



Cynghorwyr proffesiynol

Mae tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r Grŵp Llywodraethu Clinigol yn cael eu cynorthwyo gan Cynghorwyr Proffesiynol sy'n cael eu cyflogi drwy gcontractau anrhydeddus. Mae'r contractau anrhydeddus hyn am gyfnod o 3 blynedd. Wrth i'r rhaglenni sgrinio cyn geni gael eu sefydlu, mae angen adolygu'r cyngor proffesiynol, y cyngor sicrhau ansawdd, y cymorth a'r gofynion llywodraethu er mwyn sicrhau bod strwythur a gwneuthuriad y cynghorydd proffesiynol yn gweddu orau i ofynion Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r rhaglenni sgrinio cyn geni. Dechreuwyd adolygiad o'r ddarpariaeth cyngor proffesiynol ar gyfer y tîm sgrinio cyn geni ym mis Mai 2021.

Roedd y broses adolygu yn cynnwys cyfarfodydd tîm mewnol i drafod gofynion ac anghenion gwasanaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r rhaglenni sgrinio cyn geni. Cafwyd cyfres o gyfarfodydd a holiadur i'r cynghorwyr proffesiynol presennol drafod eu profiadau, eu safbwyntiau a'u syniadau. Cynhaliwyd trafodaethau yn nhîm Sgrinio Cyn Geni Cymru ac roeddent yn cynnwys y Pennaeth Rhaglen blaenorol a'r Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r cynghorwyr proffesiynol presennol i drafod eu rolau, cyfrifoldebau ac i gael eu barn, eu meddyliau a'u syniadau ar ofynion ac anghenion gwasanaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru a rhaglenni Sgrinio Cyn Geni Cymru yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr adolygiad fod gofyniad i gynyddu nifer y Cynghorwyr Proffesiynol Obstetrig i gynorthwyo Sgrinio Cyn Geni Cymru a rhaglenni sgrinio cyn geni.

Yn dilyn yr adolygiad, mae Cynghorwyr Proffesiynol presennol Sgrinio Cyn Geni Cymru fel a ganlyn –

- Obstetregydd ymgynghorol x2
- Haematolegydd ymgynghorol
- Genetegydd ymgynghorol
- Firolegydd ymgynghorol
- Biocemegydd (diddordeb arbennig mewn sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau)
- Sonograffydd ymgynghorol (diddordeb arbennig mewn uwchsain/sgrinio cyn geni).

Arweinydd llywodraethu sgrinio mamau a phlant y bwrdd iechyd

Mae gan bob bwrdd iechyd arweinydd llywodraethu wedi'i enwi ym maes Sgrinio Mamau a Phlant sy'n rheoli llywodraethu strategol y rhaglenni sgrinio cyn geni a babanod. Mae'r swyddi hyn yn cael eu cyllido gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (0.2wte).

Mae'r rolau hyn yn rheoli'r llywodraethu strategol ar gyfer y rhaglenni sgrinio i Famau a Phlant ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r arweinwyr llywodraethu yn cwrdd â Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwarter i drafod materion llywodraethu perfformiad rhaglenni a rhoi cymorth i'w gilydd o fewn y rôl hon. Mae arweinydd llywodraethu bwrdd iechyd yn cynrychioli'r grŵp yng nghyfarfodydd Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru, grwpiau cynghori a chyfarfodydd ffrydiau gwaith.

Grwpiau cynghori Sgrinio Cyn Geni Cymru

Yn dilyn ffyrdd newydd o weithio a weithredwyd yn ystod pandemig Covid-19, yn enwedig y gallu i gydweithio'n rhithwir, gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru ailgynnull y grwpiau cynghori ar gyfer y rhaglenni sgrinio cyn geni. Rhoddodd hyn ffocws clir i bob un o'r rhaglenni, lleihau'r ddibyniaeth ar wybodaeth a sgiliau unigol a hyrwyddo fframwaith llywodraethu clinigol cadarn i gynorthwyo'r llwybrau sgrinio. Mae'r grwpiau cynghori ar gyfer y rhaglenni sgrinio cyn geni fel a ganlyn –

- Grŵp Cynghori Sgrinio Clefydau Trosglwyddadwy
- Grŵp Cynghori Sgrinio Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia/Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff
- Grŵp Cynghori Sgrinio anomaledd y Ffetws/syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Cylch gwaith y grwpiau fyddai darparu cyngor ac ymgynghori proffesiynol i Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru. Byddai'r grwpiau'n cyfarfod bob 6 mis i ddechrau. Byddai'r defnydd o gyfarfodydd a thrafodaethau rhithwir yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo ymgysylltu. Byddai gan y grwpiau cynghori gylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig.

Gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn gweithio'n agos gydag arweinwyr llywodraethu byrddau iechyd, cydlynwyr sgrinio cyn geni, arweinwyr uwchsain obstetrig, arweinwyr uwchsain cardiaidd y ffetws ac arweinwyr uwchsain tryloywder y gwegil (NT) i roi cyngor proffesiynol i'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan am holl agweddau'r rhaglenni sgrinio cyn geni yng Nghymru.

Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth (HOMAG)

Aeth Pennaeth y Rhaglen a Chydlynwyr Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru i gyfarfod y Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth (HOMAG) a darparu papur cryno i roi gwybodaeth am y ffyrddiau gwaith a chynnal trafodaethau ynglŷn â'r gweithio mewn partneriaeth rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r byrddau iechyd. Mae cynrychiolydd o HOMAG hefyd yn aelod o Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru.



Yr hyn y mae'r tîm wedi'i gyflawni – 2019-2022

Crynodeb o weithgarwch allweddol yn y blynyddoedd a adroddwyd

Gweithiodd y tîm yn unol â chynllun gweithredol a oedd yn cwmpasu rhai o'r meysydd isod. Cafodd y cynllun gweithredol ei ddiweddarau ym mis Mawrth 2020 i adlewyrchu effaith yr ymateb i COVID.

Datblygu

- Gwerthuso NIPT
- Datblygu holiadur i ddefnyddwyr gwasanaethau ar gyfer diwygio'r daflen cyn prawf, 'Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd'
- Gwerthuso 'Gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig rhagor o brofion am gyflyrau cromosomaidd posibl'
- Datblygu Addysg/e-ddysgu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol
 - Adnodd Sgrinio Tri Mis Cyntaf ar gyfer Sonograffwyr
 - Modiwl e-ddysgu Calon y Ffetws Sgrinio Cyn Geni Cymru
 - Sgan Uwchsain Anomaledd y Ffetws 18+0 i 20+6
 - Diweddariad i syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i gynnwys y cynnig wrth gefn ychwanegol o NIPT mewn beichiogrwydd gefeilliaid

Rheoli Perfformiad

- Adroddiad dangosyddion perfformiad chwemisol
- Ymweliadau bwrdd iechyd ar ôl adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad
- Sicrwydd ansawdd i sonograffwyr

Archwilio

- Archwiliad o ddelweddau anomaledd y ffetws
- Rhoi Diagnosis o Sifilis a'i Reoli Cyn Geni
- Canlyniadau positif/adweithiol ar gyfer hepatitis B yn ystod beichiogrwydd
- Archwilio cerdyn cais clefyd y crymangelloedd a thalasaemia
- Rhesymau dros sgrinio pedwarplyg

Adolygu

- Taflenni gwybodaeth i fenywod cyn ac ar ôl prawf
- Polisiâu, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019
- Dadansoddiad chwemisol o'r adroddiad Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Down (DQASS)

Sgrinio Cyn Geni yn ystod pandemig COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, dechreuodd Cymru ynghyd â gwledydd eraill y DU, gyfyngiadau symud oherwydd pandemig COVID-19. Gohiriodd Llywodraeth Cymru apwyntiadau a thriniaethau iechyd nad oeddent yn rhai brys er mwyn ailgyfeirio staff ac adnoddau i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Daeth pob cyswllt cymdeithasol a theithio nad oeddent yn hanfodol i ben. Yn Sgrinio Cyn Geni Cymru, cafodd ffrydiau gwaith penodol i raglen eu hatal ac roedd staff Sgrinio Cyn Geni Cymru a Sgrinio Mamau a Phlant yn rhan o dîm ymateb COVID Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, penderfynwyd parhau â'r rhaglenni Sgrinio Cyn Geni, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Clyw Babanod. Roedd hyn oherwydd bod gan y rhaglenni sgrinio hyn ffenestri ymyrryd byr, gallant atal cymhlethdodau sy'n cael effaith fawr ar fenywod beichiog a babanod ac maent yn rhan o ofal cyn geni ac ôl-enedigol arferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yr ymateb i bandemig COVID-19 fu'r her iechyd cyhoeddus fwyaf sydd wedi wynebu'r GIG. Ar gyfer gwasanaethau cyn geni, cafwyd ymateb cynhwysfawr gan bob asiantaeth ar draws systemau iechyd a gofal lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod modd parhau i ddarparu pob gwasanaeth.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn hynod ddiolchgar am y ffordd y gwnaeth staff byrddau iechyd ymateb drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau. Er gwaethaf yr heriau niferus a wynebir gan fyrddau iechyd yng Nghymru, roeddent yn gallu parhau i ddarparu sgrinio cyn geni.

Ar draws rhaglenni Sgrinio Cyn Geni Cymru, cafodd gweithgareddau monitro perfformiad a datblygu gwasanaethau eu hatal neu eu newid i leihau'r pwysau mewn byrddau iechyd ac wrth gyflwyno'r rhaglenni'n weithredol.

Er gwaethaf yr heriau niferus a wynebir gan fyrddau iechyd yng Nghymru, roeddent yn gallu parhau i ddarparu sgrinio cyn geni.

Gyda chyfyngiadau cynyddol ar waith ac atal ymweliadau wyneb yn wyneb, addasodd y byrddau iechyd eu llwybrau gofal cyn geni. Cydnabu Sgrinio Cyn Geni Cymru, ynghyd â rhaglenni Mamau a Phlant eraill, y byddai amseru sgrinio yn dibynnu at lefelau staffio ac argaeledd menywod i ddod i sgrinio pe bai'n rhaid iddynt hunanynysu, pe baent yn symptomatig neu pe bai aelodau'r aelwyd yn symptomatig. Ystyriodd Sgrinio Cyn Geni Cymru y llwybrau ar gyfer sgrinio cyn geni a nodi lle y gallai fod hyblygrwydd yn y cyfnod digynsail i leihau'r effaith ar fenywod a babanod a'r gwasanaeth.

Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gwnaethom ddatblygu gwybodaeth benodol am COVID i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod menywod yn cael y diweddaraf am amgylchiadau a oedd yn newid yn barhaus. Cafodd y wybodaeth ei dosbarthu i fyrddau iechyd a'i chynnal ar wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Gwybodaeth i fenywod

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales
<http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk>

Cwestiynau Cyffredin am eich Sganiau Beichiogrwydd yn ystod Pandemig COVID-19

Yn ystod pandemig COVID-19, mae'r gwasanaeth iechyd yn gwneud popeth posibl i'ch cadw chi a staff y bwrdd iechyd yn ddiogel. Rydym yn deall y gall rhywfaint o hyn fod yn anodd i chi. Fodd bynnag, bydd staff yno i ofalu amdanoch a byddant yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau, sy'n nodi'r llinell sylfaen ar gyfer ymweld yng Nghymru yn ystod y pandemig ac mae'n cydnabod y gall fod yn rhaid i ddarparwyr wroddi wrth y canllawiau pan fo angen. Mae'r canllawiau ar gael yn [Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau](#). Gweler isod rai cwestiynau ac atebion, a allai fod o gymorth i chi ar hyn o bryd.

A ddylwn i fynd i fy apwyntiadau sgan uwchsain cyn geni arferol?

Dylech, mae'n bwysig eich bod yn mynd i'ch apwyntiadau uwchsain cyn geni arferol oni bai eich bod yn [hunanyysu](#). Mae canllawiau ynghylch pam mae angen i chi [hunanyysu](#), sut i [hunanyysu](#) a sut i ofalu amdanoch eich hun gartref yn [Aros yn ddiogel a chadw pellter cymdeithasol](#). Mae gofaliad cyn geni yn bwysig o ran cadw menywod a babandod yn ddiogel yn ystod beichiogrwydd.

- Os oes gennych [chi](#) neu [rywun yn eich aelwyd](#) symptomau peswch cyson newydd,
- tymheredd uchel,
- neu golli eich synnwyr blas neu arogl arferol neu newid iddo,

peidiwch â mynd i'ch apwyntiad a dilynwch y canllawiau ar [hunanyysu Cyswllt](#) a'ch bydwraig ar y rhifau ffôn a roddwyd i chi yn gynnar yn ystod eich beichiogrwydd. Os oes gennych symptomau, dylech drefnu i [gael prawf i weld a oes gennych COVID-19](#).

Bydd eich bydwraig yn eich cyngori ynghylch trefnu eich sgan uwchsain pan fydd eich cyfnod ynysu wedi dod i ben.

Pryd all eich partner/ oedolyn enwebedig, fynd yn gwmni gyda chi i'ch apwyntiad cyn geni?

Os ydych yn mynd i'r ysbyty am y rhesymau penodedig canlynol yna gall eich partner neu oedolyn enwebedig (yn ddelfrydol o'r un aelwyd) fynd gyda chi:

- sgan uned asesu beichiogrwydd cynnar (EPAU)
- sgan dyddio beichiogrwydd cynnar (11⁺² i 14⁺¹ wythnos)
- sgan anomaledd y [fetws](#) (18⁺⁰ i 20⁺⁶ wythnos)
- mynd i'r Adran Meddygaeth y [Ffetws](#).

Yn ogystal â hyn, ystyrir anghenion menywod y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad i wasanaethau mamolaeth ac y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt. Gall hyn fod yn y sefyllfaoedd canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol:

- Menywod â phroblem iechyd meddwl, anabledd dysgu neu awtistiaeth, lle na fyddai cael cwmni yn achosi iddynt fod yn ofidus.
- Menywod â nam gwybyddol nad ydynt [efallai'n gallu cofio'r](#) cyngor iechyd a roddwyd. Lle mae'r driniaeth/weithdrefn yn debygol o achosi i'r fenyw deimlo'n ofidus a gall y partner/unigolyn enwebedig arall roi cymorth.
- Lle mae gan fenyw anghenion cyfathrebu penodol a gall fod angen cymorth arni i ddeall gwybodaeth.

Efallai y bydd angen i fenywod ag anghenion cymorth fel y rhai a restrwyd uchod gael cynorthwydd hanfodol yn gwmni iddynt yn eu hapwyntiadau pan fyddant mewn ysbyty.

Gall fod rhai gwahaniaethau o ran sut y mae pethau'n cael eu trefnu mewn gwahanol rannau o Gymru. Mewn cyfnodau o gyfyngiadau lleol/cenedlaethol neu lle ceir gostyngiad o ran trosglwyddo yn eu hardal leol, dylai byrddau iechyd ddiwygio'r canllawiau yn ôl yr angen, gan weithio gyda Phwyllgorau Cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth, cynrychiolwyr staff lleol (gan gynnwys cynrychiolwyr iechyd a diogelwch), grwpiau proffesiynol eraill (e.e. [sonograffwyr](#)) yn ogystal ag arbenigwyr priodol ym maes rheoli heintiau ac iechyd y cyhoedd.

Holwch eich bydwraig os ydych yn ansicr ynghylch y trefniadau yn yr uned yr ydych yn mynd iddi.

Ffigur 1: Gwybodaeth Cyn Geni i'r Cyhoedd – Cwestiynau Cyffredin

Polisiau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisiau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn galluogi menywod yng Nghymru i gael gafael ar wasanaethau sy'n gweithio yn ôl arferion gorau ac mae'n sicrhau gwasanaeth sgrinio cyn geni teg.

Yn dilyn yr adolygiad o'r [Polisi, Safonau a Phrotocolau](#), cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i diweddarau ar 5 Awst 2019.

Roedd camau'r broses adolygu yn cynnwys:






Proses ar gyfer safonau ac adolygu protocol

August 2018	Internal review of all 8 programmes and management chapter
September 2018	11 Sept – Quality and Clinical Governance meeting – process review and agreement 18 Sept – Review of Sickle Cell and Thalassaemia/Blood Group and Antibody chapters at Sickle Cell and Thalassaemia and Blood Group and Antibody subgroup
November 2018	8 Nov - Review of Down's syndrome, Edwards' syndrome, Patau's syndrome and ultrasound chapters at Fetal Anomaly Group - HIV, hepatitis b and syphilis sub group suggest emailing these chapters to the communicable diseases sub group in November 2018 as there is no meeting scheduled - Ultrasound chapter – email chapters to the Ultrasound Obstetric Leads and Cardiac Ultrasound Leads
January 2019	15 Nov – Screening Coordinators and Governance Leads meeting – review all chapters - End of Jan – Final consultation version sent to Quality and Clinical Governance Group (one to one conversations with advisors by mid January)
February 2019	Translated in to Welsh for wider consultation
March/April 2019	Wider consultation and final amendments
June 2019	Ratification
August 2019	Publication

Profiad defnyddwyr gwasanaethau

Yn 2020, gweithiodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gyda menywod i ddod o hyd i'r ffordd orau o gyflwyno ein gwybodaeth ysgrifenedig am y profion sgrinio cyn geni sydd ar gael gan y GIG yng Nghymru. Crëwyd taflen prawf Sgrinio Cyn Geni A4 newydd i adlewyrchu barn y menywod a gymerodd ran mewn holiadur cyn prawf ar gyfer taflen sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau. Mae'r fformat newydd yn ymgorffori pob un o'r 6 thaflen wybodaeth bresennol, gyda chynllun lliw i nodi pob rhaglen ac mae'n galluogi cynnwys siartiau llif ac amlygu gwybodaeth bwysig mewn blychau llwybrau. Cynhaliwyd arolwg ar-lein ym mis Gorffennaf 2020 a chanfu fod yn well gan fenywod y llyfryn A4 newydd yn hytrach na'r 6 thaflen ar wahân.



Cafodd y llyfryn A4 newydd ei ddosbarthu i fyrdau iechyd ym mis Rhagfyr 2020.

Digidol yn gyntaf ar gyfer darparu gwybodaeth cyn prawf sgrinio cyn geni a sgrinio babanod


Ym mis Medi 2021, penderfynodd y Rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu gwybodaeth am sgrinio cyn geni a sgrinio babanod i fenywod beichiog/rhieni babanod mewn fformat digidol yn bennaf. Byddai nifer cyfyngedig o fersiynau print copi caled yn dal i gael eu cynhyrchu a'u darparu i'r defnyddwyr hynny nad oeddent yn gallu cael mynediad at y wybodaeth ddigidol neu'n amharod i wneud hynny. Cefnogodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y newid hwn oherwydd bod:

- Dau gyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi amlinellu sut roedd y defnydd o dechnoleg a mwy o fynediad at wybodaeth yn helpu i wella iechyd a llesiant pobl Cymru.
- Gall y wybodaeth a gyrchir fod yn fwy unigol
- Gall y dulliau cyflwyno fod yn fwy deniadol
- Mae'r adnoddau yn fwy hygyrch oherwydd gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion cyfathrebu gwahanol
- Mae adnoddau digidol yn haws eu diweddarau
- Mae dull digidol yn gyntaf yn arwain at leihau costau argraffu
- Mae adnoddau digidol yn cefnogi llai o effaith amgylcheddol
- Mae disgwyliad cyhoeddus cydnabyddedig am wybodaeth ar ffurf ddigidol.

Bu ymgyrch i wella'r mynediad digidol at y wybodaeth hon a gyflymwyd gan bandemig Covid. Dangosodd dadansoddeg y we ar wybodaeth i'r cyhoedd Sgrinio Cyn Geni Cymru fod traffig i'r safle wedi cynyddu'n sylweddol ar ddechrau'r pandemig mewn ymateb i'r newidiadau mewn gofal. Fodd bynnag, cafodd y wybodaeth sgrinio cyn geni a sgrinio babanod ar y tudalennau ei defnyddio'n bennaf i gynorthwyo'r broses o ddarparu'r wybodaeth copi caled ac o ganlyniad nid oedd yr adnoddau'n hygyrch ac roedd tystiolaeth anecdotaidd gan weithiwr iechyd proffesiynol wedi nodi bod llywio'r platfformau cyhoeddus yn drafferthus.

Ffigur X: Dadansoddeg y we Sgrinio Cyn Geni Cymru (bu newid gweinydd o Hydref 2020 ymlaen)

Jan 1, 2020 - Dec 31, 2020: ● Pageviews
Dec 31, 2018 - Dec 31, 2019: ● Pageviews



Roedd angen i'r rhaglenni sgrinio sicrhau bod platfformau digidol rhaglenni yn hawdd eu defnyddio, yn hawdd eu llywio ac y gellid cael gafael ar y wybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd (ysgrifenedig, fideo, BSL a sain), gan alluogi menywod i gael mynediad at wybodaeth am sgrinio mewn fformat o'u dewis. Er mwyn gwneud hyn, datblygodd y Gweithgor Digidol Mamau a Phlant adnoddau newydd a gwella adnoddau presennol i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Roedd yr adnoddau'n cynnwys datblygu [animeiddiadau cyn prawf](#) yn manylu ar negeseuon allweddol y wybodaeth sgrinio a fersiwn ddigidol o'r holl wybodaeth cyn prawf sgrinio cyn geni a babanod mewn fformat HTML sy'n hwylus i ffonau symudol y gellid rhoi dolen iddi i fenywod a chadw'r ddolen ar eu sgrin gartref.



Profion Sgrinio Cyn Geni

Gwybodaeth am y llwybr newydd i fenywod sy'n disgwyl gefeilliaid ac sy'n cael cynnig NIPT yn dilyn prawf sgrinio cyfunol siawns uwch.

Adran 1 - Cyflwyniad i brofion sgrinio cyn geni

Yn ystod eich beichiogrwydd, ceir cynnig nifer o brofion sgrinio gwahanol. Mae'r ffrwyth hon yn cynnwys gwybodaeth bwydlyd am sgrinio a phroffion cyn geni.

Adran 2 - Eich grŵp gwaed a beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gellir eu cynnal yn ystod beichiogrwydd. Os caewch chi eich awyrtiad cynnedigol gyda'ch Bydwraig gymunedol ar neu cyn 12 Mai 2024, mae'r wybodaeth hon i chi.

Adran 3 - Heintiau yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r rhai o heintiau a all achosi problemau i chi neu'ch babi, ond y gellir eu trin.

Adran 4 - Sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gallwch eu cael yn ystod beichiogrwydd i gael gwybodaeth a ydych chi ynddi clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia.

Adran 5 - Sganiau uwchsain yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r ddau broffion sgrinio uwchsain a gynnig i chi yn ystod beichiogrwydd.

Adran 6 - Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd

Mae'r adran hon yn esbonio'r profion y gellir eu cynnal yn ystod beichiogrwydd i gael gwybodaeth a oes gan eich babi syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Adran 7 - Profion mewnwithiol

Mae'r adran hon yn esbonio'r samplu fflw corionig ac amniocentesis.

Adran 8 - Rhagor o wybodaeth

Gallwch hefyd gael gwybodaeth am broffion sgrinio gan eich bydwraig neu'ch meddyg ydy'ch chi.

Gweithiodd y rhaglenni Cyn Geni a Babanod gyda byrddau iechyd i weithredu 'Digidol yn Gyntaf' ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am sgrinio cyn geni a babanod, gyda thrawsnewid ffurfiol ledled Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer Medi 2022.

O'r dechrau, nod y prosiect oedd sicrhau:

- nad yw'r newidiadau'n effeithio ar foddhad pobl â'r rhaglenni sgrinio cyn geni a babanod
- nad oedd unrhyw anfantais oherwydd y newid i'r rhai heb fynediad i'r rhyngwrwyd na'r rhai sydd ag anghenion gwybodaeth penodol
- bod cyfathrebu clir ynghylch y newidiadau i ddarparwyr sgrinio, rhanddeiliaid, a grwpiau cleifion
- byddai'r cyfleoedd mwyaf posibl i ddulliau digidol ehangu a gwella cynnwys, fel defnyddio cynnwys rhyngweithiol ac amlgyfrwng.

Cafodd gwerthusiad o'r newid ei lunio a'i adrodd ym mis Rhagfyr 2023.

Datblygu addysg ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol

Yn ystod 2020 a 2021, datblygodd Sgrinio Cyn Geni Cymru nifer o adnoddau e-ddysgu i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu'r rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru. Ymhlith yr adnoddau a ddatblygwyd roedd –

- Adnodd sgrinio tri mis cyntaf ar gyfer sonograffwyr
- Sgan uwchsain anomaledd y ffetws 18+0 i 20+6 wythnos
- Modiwl e-ddysgu Calon y Ffetws Sgrinio Cyn Geni Cymru
- Diweddariad i syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i gynnwys y cynnig wrth gefn ychwanegol o NIPT mewn beichiogrwydd gefeilliaid gyda phrawf sgrinio cyfun siawns uwch

Cyhoeddwyd canllaw gofyniad a amlinellodd yr amllder defnydd argymelledig ar gyfer cwblhau pob adnodd a chan ba grŵp staff. Gellir cael mynediad at yr adnoddau drwy [ESR](#) neu gall myfyrwyr neu'r rhai nad ydynt yn gallu mewngofnodi ar ESR eu cyrchu hefyd drwy Dysgu@Cymru.

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Start

Antenatal Screening Wales Fetal Cardiac e-learning Module

Unit 1: Anatomy of the Fetal Heart

Developed under licence from Public Health England

Addysg i fydwragedd dan hyfforddiant



A word cloud of feedback comments for the Menti session. The words are arranged in a circular pattern, with the most frequent words in the center. The words include:

- session
- interactive
- mentimeter
- good
- enjoyable
- session made interactive
- interaction within the sessions
- enjoyed menti
- great
- good way
- fantastic session
- informative session
- mentimeter was easy
- lots
- information
- knowledge and understanding
- good session
- use of menti
- mentimeter is interesting
- session with menti



Adroddiad dangosyddion perfformiad chwemisol

Caiff dangosyddion perfformiad y byrddau iechyd eu cyflwyno i Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwe mis, ym mis Ebrill a mis Hydref. Maent yn monitro perfformiad y bwrdd iechyd yn erbyn safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cael eu hadrodd yn ôl i Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y byrddau iechyd, y pennaeth bydwreigiaeth, yr arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant, y cydlynwyr sgrinio cyn geni a'r arweinwyr obstetrig uwchsain i'w huwchgysylltu o fewn byrddau iechyd unigol.

Mae Cydlynwyr Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru ac arweinwyr proffesiynol ym mhob bwrdd iechyd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod a darparu cefnogaeth mewn perthynas â'r adroddiad dangosyddion perfformiad.

Mae dangosyddion perfformiad fel arfer yn cael eu cynnal ym mis Ebrill a mis Hydref fel ffordd o archwilio safonau a phrotocolau mewn byrddau iechyd. Ar ôl ymgynghori â'r byrddau iechyd, cytunwyd i atal rowndiau mis Ebrill a mis Hydref 2020 er mwyn lliniaru rhywfaint o'r pwysau ar y byrddau iechyd yn ystod pandemig Covid-19. Cwblhawyd rownd lai ar gyfer mis Awst, gan edrych ar ddata rhwng mis Ionawr – Mehefin 2020.

Roedd adroddiad llai Cymru gyfan yn cynnwys y dangosyddion canlynol:

ASW11a ac 11b Cwblhau cardiaid cais syndrom Down, syndrom Down a syndrom Patau.

Sgrinio Cyn Geni Cymru 15 Brechu hepatitis B newyddenedigol

Sgrinio Cyn Geni Cymru 23 Amseru sganau beichiogrwydd cynnar

Sgrinio Cyn Geni Cymru 24 Cymhwysedd sonograffwyr

Sgrinio Cyn Geni Cymru 25 Amseroldeb profi tad biolegol y babi am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Sgrinio Cyn Geni Cymru 29 NT heb ei gyflawni yn ystod sgan dyddio beichiogrwydd cynnar ar gyfer sgrinio cyfun.

O fis Ebrill 2022, cafodd y dangosyddion perfformiad llawn eu hailsefydlu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Rhaglenni penodol

Ymestyn y cynnig profi cynenedigol heb lawdriniaeth (NIPT) i feichiogrwydd gefeilliaid sydd â chanlyniad sgrinio siawns uwch ar gyfer syndrom Down neu syndrom Edwards/Patau

Ym mis Ebrill 2018 gweithredodd pob bwrdd iechyd ledled Cymru y newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r prosiect profi cynenedigol heb lawdriniaeth (NIPT). Roedd ychwanegu NIPT fel rhan o'r newid hwn yn un o'r argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC) fel cyflwyniad gwerthusol ar gyfer beichiogrwydd sengl. Cafodd ymestyn y cynnig NIPT i feichiogrwydd gefeilliaid â chanlyniad sgrinio siawns uwch ar gyfer syndrom Down neu syndrom Edwards/Patau ei weithredu'n llwyddiannus (yn dilyn argymhelliad gan UKNSC) ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru ar 7 Mehefin 2021 ar ôl cael ei oedi oherwydd pandemig COVID.

Roedd y newid yn ei gwneud yn ofynnol cydlyn nifer o elfennau rhaglenni gwahanol, yn enwedig rheoli prosiect, cynnwys byrddau iechyd wrth weithredu, addysg ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod.

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales
<http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk>

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Screening for Down's syndrome, Edwards' syndrome and Patau's syndrome in twin pregnancies

1. Introduction to twins and screening

Twin pregnancies account for 1.6% of all pregnancies in the UK. In order for women to be able to make a fully informed decision about entering the screening pathway they need to understand the stages in the pathway prior to deciding whether to have screening or further tests.

Decision making for women around the offer of screening for these conditions in a twin pregnancy is more complicated than in singleton pregnancies. Invasive testing in a twin pregnancy carries a higher risk of miscarriage than a singleton pregnancy and there are risks associated with selective termination if that is the decision taken if one fetus has one of the conditions screened for.


N.B Screening for Down's syndrome, Edwards' syndrome and Patau's syndrome is not offered in triplets or higher multiple pregnancies.

The accuracy of the combined test and the risks associated with invasive testing will be different for:

- dizygotic twins (70% of all twin pregnancies) - arise from two separate eggs that are fertilised by separate sperm and are non-identical
- monozygotic twins (30% of all twin pregnancies) - occur when a single fertilised egg later divides into two embryos. These twins usually share the same genetic material (are identical).

Diagram 1
Lambda λ sign = dichorionic T sign = monochorionic¹

© Public Health Wales NHS Trust



Cafodd dilysu clinigol pellach ei gynnal cyn y gellid gweithredu NIPT ar gyfer beichiogrwydd gefeilliaid yng Nghymru fel prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau. Penderfynwyd y dilysu clinigol a oedd perfformiad y prawf, o ran cywirdeb, yn cyrraedd y safonau diagnostig.

Gwerthusiad NIPT

Argymhellodd UKNSC fod ychwanegu'r cynnig profi cynenedigol heb lawdriniaeth yn cael ei weithredu fel cyflwyniad gwerthusol. Nod y gwerthusiad o NIPT oedd ateb y pedwar cwestiwn canlynol:

1. Pa effaith y mae NIPT yn ei chael ar y penderfyniadau y mae menywod a'u partneriaid yn eu gwneud?
2. Beth yw perfformiad y prawf ar gyfer syndrom Edwards a syndrom Patau?
3. Pa mor aml y ceir "dim canlyniad" o NIPT?
4. Beth yw'r amser a gymerir i fenywod gael canlyniadau NIPT?

Yn dilyn gweithredu'n llwyddiannus, sefydlodd Sgrinio Cyn Geni Cymru Fwrdd Gwerthuso i fonitro'r cyflwyniad gwerthusol o NIPT. Roedd y cyfnod gwerthuso hwn yn cynnwys 3 blynedd o'r cynnig NIPT. Byddai hyn yn cynnwys yr holl ganlyniadau beichiogrwydd ar gyfer menywod a ddewisodd sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau rhwng mis Ebrill 2018 a mis Tachwedd 2021.

Archwilio'r rhesymau pam mae menywod yn cael sgrinio pedwarplyg

Ers gweithredu'r prawf cyfun (11+2-14+1) i'r llwybr sgrinio cyn geni ar gyfer cynnig syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, gwnaeth nifer y profion sgrinio pedwarplyg ar gyfer syndrom Down yn unig (15+0-18+0) ostwng yn ôl y disgwyl. Nodwyd ar adroddiadau Dangosydd Perfformiad fod amrywiad yn y gymhareb o sgrinio cyfunol i bedwarplyg yn y byrddau iechyd ac o fewn safleoedd unigol yn y byrddau iechyd. Roedd yr amrywiad hefyd yn newid o fewn pob bwrdd iechyd yn fisol. A chynhaliwyd archwiliad ciplun Cymru gyfan i archwilio'r rhesymau pam mae menywod yn cael sgrinio pedwarplyg.

Canfyddiadau ynghylch pam mae menywod wedi cael prawf pedwarplyg:

- Roedd 60% yn sgil anallu'r sonograffydd i fesur tryloywder y gwegil (NT) yn gywir ((oherwydd lleoliad y ffetws, BMI uchel))
- Roedd 17% o fenywod yn cadw lle yn rhy hwyr i gael sgrinio cyfun
- Roedd 5% o fenywod yn ansicr o'u dyddiadau beichiogrwydd ac felly cafodd uwchsain ei drefnu yn rhy hwyr i gael sgrinio cyfun
- 9% oherwydd bod menywod yn canslo neu ddiffyg presenoldeb o ran eu hapwyntiad sgrinio, ac yn aildrefnu
- 8% lle mae'r cyfnod beichiogrwydd a gyfrifwyd o'r cyfnod misol diwethaf (LMP) yn anghywir-felly roedd yr apwyntiad a drefnwyd yn rhy hwyr i gael sgrinio cyfun
- Roedd 1% o fenywod wedi gwrthod sgrinio ac yna newid eu meddyliau ac yna'n rhy hwyr i gael sgrinio cyfun



Argymhellion o'r archwiliad

- Adolygu proses y bwrdd iechyd ar gyfer cwblhau'r cerdyn cais sgrinio yn gywir (uwchsain-fel hanes obstetrig cyfyngedig, LMP ar rai ceisiadau)
- Adolygu'r broses weinyddu o dderbyn cais a phennu apwyntiad mewn modd amserol
- Argymhelliad i drefnu'r sgan uwchsain a'r apwyntiad sgrinio ar gyfer cyfnod beichiogrwydd 12+ wythnos yn ddelfrydol-i alluogi LMP i fod yn anghywir o 2 wythnos
- Arweinwyr tryloywder y gwegil yn y byrddau iechyd i fonitro lle nad oedd modd cyflawni NT i nodi tueddiadau mewn safleoedd byrddau iechyd a'r sonograffydd unigol.
- Parhau i gynnig sgrinio pedwarplyg i fenywod sy'n cydsynio i sgrinio lle nad yw prawf sgrinio cyfun wedi bod yn bosibl

Ailarchwilio a yw'r argymhellion wedi cael effaith.

Rheoli coluddyn ecogenig ynysig a nodwyd ar sgan anomaledd y ffetws

Yn dilyn argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd i adolygu awgrymiadau gan adran Genomeg Feddygol Cymru Gyfan i ddiwygio'r llwybr ar gyfer coluddyn echogenig ynysig a nodwyd yn y sgan anomaledd y ffetws, cafodd y llwybr ei ddiweddarau a'i weithredu gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru ar 14 Mehefin 2021. Roedd y newidiadau i'r llwybr yn sicrhau bod yr holl feichiogrwydd risg uchel (h.y. lle canfuwyd bod y fam a'r tad yn gludwyr mwtaniadau genyn ffeibrosis systig) yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i feddygaeth y ffetws ar gyfer cwnsela ar yr opsiwn profion mewnwthiol am ffeibrosis systig. Byddai'r newid hwn yn sicrhau bod menywod yn cael y cynnig, cymorth angenrheidiol a chwnsela ac yn ystyried eu hopsiynau mewn modd amserol.

Yn unol â'r addasiad llwybr hwn, cafodd gwybodaeth broffesiynol a [gwybodaeth i'r cyhoedd](#) ei diweddarau.



Sgrinio Cyn Geni Cymru Antenatal Screening Wales



Mae'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi os yw sgan anomaledd y ffetws yn dangos bod gan eich babi goluddyn ecogenig

Mae'r wybodaeth yn berthnasol os mai coluddyn ecogenig yw'r unig ganfyddiad annisgwyl ar y sgan (a elwir yn goluddyn ecogenig ynysig).

Mae pob menyw feichiog yng Nghymru yn cael cynnig sgan anomaledd y ffetws pan fydd rhwng 18 ac 20 wythnos yn feichiog. Mae'r sgan yn ffordd o wirio ei bod yn ymddangos bod eich babi'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn golygu y gall ddangos canfyddiadau annisgwyl y byddai angen eu gwirio wedyn drwy brofion eraill.

Coluddyn ecogenig

Mae coluddyn ecogenig yn cael ei ganfod mewn tua 4 o bob 1000 (0.4%) o sganiau anomaledd y ffetws yng Nghymru.


Beth yw coluddyn ecogenig?

Coluddyn ecogenig (sydd weithiau'n cael ei alw'n berfedd ecogenig) yw pan fydd rhan o goluddyn babi yn edrych yn fwy llachar (yn fwy gwyn) nag esgryn y babi ar sgan uwchsaïn.

Credir mai un o brif achosion coluddyn ecogenig yw rhywfaint o hylif wedi'i staelio â gwaed yng ngholuddyn y babi, gan fod y babi wedi'i lyncu fwy na thebyg. Mae'r babi fel arfer yn llyncu hylif amniotig, ac felly os bydd gwaed yn yr hylif amniotig, bydd yn ymddangos yn fwy llachar na hylif amniotig clir ar y sgan.

Yng Nghymru, os mai coluddyn ecogenig yw'r unig beth sy'n cael ei ganfod ar y sgan 18 i 20 wythnos, mae tua 7 o bob 10 babi (70%) yn cael ei eni heb unrhyw gyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â choluddyn ecogenig.

Pathway for Isolated Echogenic Bowel



Archwiliad o ddelweddau anomaledd y ffetws

Cynhaliwyd ailarchwiliad o ddelweddau anomaledd y ffetws yn 2019. Roedd hwn yn ailarchwiliad o archwiliad gwreiddiol yn 2018. Mae gan Sgrinio Cyn Geni Cymru restr y cytunwyd arni o ddelweddau hanfodol i'w cofnodi a'u cadw yn y sgan anomaledd y ffetws. Cyhoeddir y rhestr yn y llawlyfr uwchsaïn.

Images to be stored at the fetal anomaly scan

The Obstetric Lead sonographers agreed the following set of images as a minimum requirement for storage, and to provide a quality assessment of the examination.

- ❖ Head Circumference
- ❖ Nose/Lips and Chin
- ❖ Femur Length
- ❖ Four Chamber Heart View
- ❖ Transverse Section of Kidneys in the Abdomen
- ❖ Three Vessel Trachea View with colour
- ❖ Midline Longitudinal Section to include the Internal OS
- ❖ Sagittal Spine

Any abnormality or other measurement included in the report should have an image to support the finding.

Yn dilyn yr archwiliad cychwynnol yn 2018 ac addysg/argymhellion i wella ymarfer, gofynnwyd i'r arweinwyr obstetrig o bob safle ym mhob bwrdd iechyd i asesu delweddau eu sonograffwyr er mwyn sicrhau bod y sganiau'n cael eu cynnal i safon dderbyniol.

Canfu'r ailarchwiliad fod y safon wedi gwella o gymharu â'r archwiliad blaenorol ac argymhellodd fod—

- Angen i archwiliadau byrddau iechyd gael eu cynnal yn rheolaidd gan yr arweinwyr obstetrig uwchsaïn
- Dylai sonograffwyr gael eu hannog i hunanarchwilio a oedd yn un o ganfyddiadau'r archwiliad hwn. Roedd sonograffwyr yn cael mwy o fudd o'u hunanarchwiliad ac yn nodi eu gwendidau eu hunain.
- Nid oes gofyniad i Sgrinio Cyn Geni Cymru gynnal yr archwiliadau yn y byrddau iechyd, ond fel offeryn dysgu, ac fel mesur sicrhau ansawdd, gallai canlyniadau archwilio'r bwrdd iechyd gael eu bwydo yn ôl i Sgrinio Cyn Geni Cymru a'u cyflwyno yng nghyfarfod blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru gan yr Arweinwyr Obstetrig.

Adroddiad chwemisol y Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Down (DQASS)

Mae perfformiad Cymru Gyfan sonograffwyr sy'n darparu sgrinio yn cael ei adrodd gan y Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Sgrinio Syndrom Down (DQASS). Mae pob hyd y babi o'r corun i'r pen ôl (CRL) a mesuriad tryloywder y gwegil (NT) a geir gan sonograffydd wedi'u dogfennu ar y cerdyn cais syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau. Mae gan bob sonograffydd god adnabod unigryw (cod DQASS) a gyflwynir ynghyd â'r mesuriadau ar yr un ffurflen.


Mae labordy Biocemeg Cymru Gyfan (Ysbyty Athrofaol Cymru) yn anfon eu holl ddata gan gynnwys y codau

sonograffydd i DQASS bob 6 mis. Mae DQASS yn llunio plot/graff ar gyfer pob sonograffydd unigol o'r wybodaeth hon. Mae'r data ym mhob plot/graff yn cael eu hasesu mewn tri maes (gogwydd, lledaeniad a thuedd) i nodi perfformiad yn erbyn cromlin gyfeirio Sefydliad Meddygaeth y Ffetws (FMF).

Dyfernir baner i sonograffwyr er mwyn cofnodi eu perfformiad.

- Baner werdd yw pan fo'r gogwydd ar gyfer y plot yn llai na 0.1 ac nid oes tystiolaeth o wahaniaeth sylweddol o ran lledaeniad na thuedd o'r cromlin gyfeirio FMF
- Baner oren yw lle mae'r gogwydd rhwng 0.1 a 0.3 neu mae gwahaniaeth sylweddol o ran lledaeniad neu duedd o'r cromlin gyfeirio FMF
- Baner goch yw lle mae'r gogwydd yn fwy na 0.3. Ni roddir unrhyw faneri coch ar gyfer gwahaniaethau o ran lledaeniad neu duedd.
- Baner wen yw lle mae llai na 25 o fesuriadau ar y plot.

Mae DQASS yn darparu'r wybodaeth i Sgrinio Cyn Geni Cymru sydd wedyn yn darparu adroddiad ar gyfer pob safle yn y byrddau iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y perfformiad ledled Cymru.



Mae'r wybodaeth DQASS yn galluogi edrych yn ôl dros y chwe mis diwethaf er mwyn cynnal ansawdd rhaglen yng Nghymru ac yn y pen draw darparu canlyniad siawns cywir i fenywod. Mae unrhyw broblemau a amlygir gan yr adrodd DQASS yn cael eu bwydo yn ôl gan Sgrinio Cyn Geni Cymru i'r byrddau iechyd ar gyfer gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Arweinwyr NT ffurfio cynlluniau gweithredu a thrafod materion gyda'u harweinwyr obstetrig uwchsain, rheolwyr gwasanaeth radioleg ac arweinwyr llywodraethu mamau a phlant os oes angen.

Archwiliad labordy o ganlyniadau ar gyfer rheoli hepatitis B cronig yn ystod beichiogrwydd

Yn 2017, adolygodd Sgrinio Cyn Geni Cymru y protocolau ar gyfer sgrinio hepatitis B yn ystod beichiogrwydd. Cafodd protocol ychwanegol i argymhell profion DNA (llwyth feirysol) ar gyfer hepatitis B ar adeg y sampl cadarnhau ei gynig i bob menyw feichiog a oedd wedi cael diagnosis o hepatitis B. Roedd hyn er mwyn gallu cynnig triniaeth i fam â llwyth feirysol uchel yn y trydydd tri mis, gan leihau'r risg o drosglwyddo fertigol ac i nodi'r babanod sy'n wynebu risg a gostwng trosglwyddiad fertigol ymhellach.

Cafodd y newid hwn ei weithredu ym mis Medi 2017. Yn 2019, cafodd archwiliad ôl-weithredol i wirio cydymffurfiaeth â safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru ei gynnal. Casglwyd data o bob bwrdd iechyd yng Nghymru mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sgrinio Cyn Geni Cymru, a thimau clinigol y bwrdd iechyd. Cynhaliwyd archwiliad a dadansoddiad o'r data a gasglwyd gan Labordy Feiroleg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Roedd cydymffurfiaeth â safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer samplau seroleg cadarnhau a phrofion llwyth feirysol HBV DNA yn dilyn canlyniad HBsAg adweithiol neu bositif yn y drefn honno yn uchel. Ymhlith y rhwystrau i ddilyn y llwybr clinigol priodol roedd diffyg presenoldeb y claf, cadw lle ar gyfer y beichiogrwydd yn hwyr, a chleifion yn symud y tu allan i'r bwrdd iechyd.

Cafodd canran uchel o gleifion adolygiad gyda Gastroenteroleg/Hepatoleg, er bod cyfran is-optimaid o'r adolygiadau hyn o fewn 6 wythnos i ganlyniad sgrinio cyn geni positif.

Roedd cydymffurfiaeth â safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer hepatitis B adweithiol yn uchel. Cafodd yr holl samplau a gafodd ganlyniad adweithiol yn ystod y cyfnod archwilio eu cadarnhau fel rhai negatif pan gafodd y samplau eu hailadrodd, gan roi sicrwydd o brotocol Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer rheoli canlyniadau adweithiol yn ystod beichiogrwydd.



An Audit of Clinical Practice Against the Antenatal Screening Wales Guidelines for the Diagnosis and Management of Hepatitis B in Pregnant Women in Wales

Sophie Jones¹, Kindry Williams², John Regan², Rachel Jones¹

¹ Public Health Wales Microbiology Cardiff, ² Antenatal Screening Wales

INTRODUCTION

Hepatitis B is an infection of the liver caused by the hepatitis B virus (HBV). HBV is spread by direct contact with body fluids. Most adults develop acute hepatitis and will clear the virus, recovering fully from the infection. However, some will go on to develop chronic hepatitis, which carries the risk of cirrhosis and hepatocellular carcinoma if left untreated. Neonates that acquire HBV by vertical transmission at birth have a 90% chance of developing chronic hepatitis.

All pregnant women in Wales are offered antenatal screening for hepatitis B surface antigen (HBsAg) with the aim of reducing the risk of mother-to-baby HBV transmission. In line with Department of Health 2011 guidelines, Antenatal Screening Wales (ASW) have recently recommended that all pregnant women with a HBV infection have a HBV DNA viral-load measured during the course of their pregnancy. In addition, a pathway was introduced for the management of 'reactive' results to reduce anxiety generated as a result of 'non-specific' reactivity that can occur with screening samples¹.


METHODS

A retrospective audit of clinical practice against the standards outlined for the diagnosis and management of hepatitis B in the ASW guidelines was conducted, to determine how successfully these new developments have been implemented.

The audit was performed on all pregnant women with positive or reactive HBsAg antenatal screening result between October 2017 and November 2018, inclusive. Data was collected from Welsh Health Boards in a collaboration between PHW Microbiology, ASW, and the clinical teams.

RESULTS

Fifty-nine women with positive HBsAg antenatal screening results were identified, 26 (44%) of which were new diagnoses and 33 (56%) were from known Hepatitis B positive patients. Thirty-eight women with 'reactive' HBsAg screening results were identified.



RESULTS (continued)

• HBsAg Positive Samples (n=59)

The appropriate follow-up samples were taken for 53 (90%) patients.

Standard	Result
Was all the required demographic/clinical information completed on the request card?	Yes - 69%
Is there evidence that the antenatal clinic is contacted with the positive hepatitis B result in women newly diagnosed with hepatitis B?	Yes - 96%
Is there evidence that a referral was made to the Gastroenterology/Hepatology team in women newly diagnosed with hepatitis B?	Yes - 96%

Of the 33 patients with previously known Hepatitis B, 31 (94%) had a HBV DNA viral load sample taken.

Fifty-one (86%) patients had reviews with the Gastroenterology/Hepatology team, 24 (41%) were within 6 weeks of the antenatal screening sample result.

Reasons Why Patients Did Not Have A Gastroenterology/Hepatology Review



• HBsAg Reactive Samples (n=38)

The appropriate follow-up samples were received for 35 (92%) out of 38 patients.

Standard	Result
Was all the required demographic/clinical information completed on the request card?	Yes - 97%
Is there evidence that the antenatal clinic was contacted with the reactive result?	Yes - 97%

Evidence of reactive HBsAg results being communicated with the midwives is likely an underestimate as this information is not routinely recorded. All results are reported electronically.

All 35 patients showed no indication of HBV infection on confirmatory testing.

DISCUSSION

The compliance to ASW standards for confirmatory serology samples and HBV DNA viral-load testing following a reactive or positive HBsAg result respectively was high.

Barriers to following the appropriate clinical pathway include non-attendance of the patient, late booking of the pregnancy, and patients moving outside of the Health Board.

A high percentage of patients had a review with Gastroenterology/Hepatology, although a sub-optimal proportion of these reviews were within 6 weeks of a positive antenatal screening result.

REFERENCES

1. Antenatal Screening Wales Policy, Standards and Protocols 2015. Version 8, 2018. Public Health Wales.

Contact: Sophie.Jones2@wales.nhs.uk

Acknowledgements: Thankyou to the midwives and clinical teams that helped to collate the audit data, and to the Welsh microbiology laboratories that performed the laboratory testing.



Cafodd canlyniadau'r archwiliad eu rhannu â phenaethiaid bydwreigiaeth byrddau iechyd, cydlynwyr sgrinio cyn geni, arweinwyr llywodraethu mamau a phlant, labordai feiroleg/microbioleg yng Nghymru ac arweinwyr gastroenteroleg byrddau iechyd Cymru gyfan. Cafodd canlyniadau archwilio eu cyflwyno a'u trafod yn y cyfarfod ar y cyd rhwng cydlynwyr sgrinio ac arweinwyr llywodraethu ym mis Hydref 2019. Derbyniwyd cyflwyniad poster o'r archwiliad i'w gynnwys yng Nghynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru. Penderfynodd Sgrinio Cyn Geni Cymru, ar y cyd â chydlynwyr sgrinio ac arweinwyr llywodraethu mamau a phlant, ddatblygu templed/rhestr wirio ar gyfer menywod Hepatitis B positif i'w defnyddio gan fyrdau iechyd.

Cynhelir ailarchwiliad yn 2023.

Archwiliad rhoi diagnosis o sifflis a'i reoli cyn geni (ADAMS)

Archwiliodd yr archwiliad hwn reolaeth menywod yng Nghymru sy'n cael canlyniadau prawf sifflis positif ac adweithiol, a gofal a thriniaeth ddilynol babanod y menywod hyn, gan asesu yn erbyn safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru a chanllawiau Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH) ar reoli sifflis. Bwriad yr archwiliad oedd datblygu llwybr Cymru gyfan (gan gynnwys diffiniad clir o derminoleg) ar gyfer menywod beichiog sydd â chanlyniadau positif ac adweithiol i sifflis, a chryfhau cysylltiadau cyfathrebu rhwng timau i alluogi darparu gofal integredig.

Cafodd yr archwiliad ei arwain gan firolegydd ymgynghorol yn labordy feiroleg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd gyda chymorth gan bediatregydd ymgynghorol, obstetregydd ymgynghorol, ymgynghorydd mewn iechyd rhywiol integredig a chydlynnydd rhaglen o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Cafodd arweinwyr lleol eu nodi ar gyfer rheoli sifflis a chasglu data mewn timau cyn geni, iechyd rhywiol a phediatrig ar gyfer pob bwrdd iechyd.

Cafodd canlyniadau archwilio eu mesur yn erbyn safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru a chanllawiau BASHH ar reoli sifflis. Cafodd dadansoddiad ei wneud gan labordy feiroleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru.

Ymhlith y cryfderau a nodwyd gan yr archwiliad roedd –

- roedd cydymffurfiaeth dda â phrofion cadarnhau i fenywod â chanlyniadau positif ac adweithiol.
- cofnododd yr archwiliad bwysigrwydd y rhaglen sgrinio cyn geni wrth nodi menywod â haint a oedd yn anhysbys yn flaenorol.

Mae'r meysydd ar gyfer gwella a amlygwyd gan yr archwiliad yn cynnwys dogfennaeth a gwaith tîm amlddisgyblaethol. Mae meysydd penodol ar gyfer gwella yn cynnwys yr amser a'r lle y mae menywod yn cael canlyniadau sifflis positif, atgyfeirio bechiogrwydd risg uchel i feddygaeth y ffetws, cael samplau mamau pâr adeg y geni a sicrhau nad oes unrhyw fabanod yn cael profion gwaed diangen. Roedd argymhelliad pellach i wella'r gwyliadwriaeth o fenywod beichiog yng Nghymru â sifflis a babanod sy'n cael eu geni â sifflis cynhenid.

Cafodd canlyniadau archwilio eu cyflwyno a'u trafod yn y cyfarfod ar y cyd rhwng cydlynwyr sgrinio ac arweinwyr llywodraethu ym mis Mehefin 2022. Cafodd y llwybrau presennol a chanlyniad yr archwiliad hwn drwy gyflwyno achosion eu cyflwyno mewn cyfarfodydd byrddau iechyd lleol. Derbyniwyd cyflwyniad poster o'r archwiliad i'w gynnwys yng Nghynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru. Penderfynodd Sgrinio Cyn Geni Cymru, ar y cyd â chydlynwyr sgrinio ac Arweinwyr llywodraethu mamau a phlant, ddatblygu templed/rhestr wirio ar gyfer menywod Sifflis positif i'w defnyddio gan fyrdau iechyd. Mae CARIS wedi cytuno gydag arweinwyr llywodraethu a chydlynwyr sgrinio i gasglu data ar gyfer unrhyw achosion positif o sifflis yn ystod bechiogrwydd.

Bydd ailarchwiliad yn cael ei gynllunio ar ôl gweithredu'r argymhellion.

Archwiliad o gerdyn cais clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Mae archwiliad ciplun (cyfnod o un mis), ar gwblhau cardiau cais clefyd y crymangelloedd a thalasaemia cyn geni, wedi'i gynnal yn flynyddol ers 2016. Nododd y labordy haemoglobinopathi fod cyfran o gardiau cais sy'n mynd i'r labordy heb eu llenwi'r gywir. Roedd hyn yn cynnwys cardiau cais heb tarddiad teuluol y fam a thad biolegol y babi yn mynd yn ôl o leiaf 2 genhedlaeth.

Roedd ceisiadau am brofion sgrinio anghywir, gan arwain at y posibilrwydd o beidio â rhoi diagnosis mewn beichiogrwydd risg uchel a phrofion clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn cael eu cynnal yn ddiangen.

Cafodd templed archwilio ai anfon ymlaen i labordai'r byrddau iechyd yn gofyn bod yr holl gardiau cais cyn geni sy'n mynd i'r labordy rhwng 1-30 Mehefin 2019 yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad. Cafodd gwybodaeth o 1337 o gardiau cais sgrinio cyn geni clefyd y crymangelloedd a thalasaemia eu dadansoddi o'r byrddau iechyd yng Nghymru.

Roedd yn braf cofnodi bod cymharu canlyniadau'r archwiliad â rhai 2017 a 2018 yn dangos bod cwblhau "gofynnwyd am brawf" wedi gwella. Nodir bod

mae tuedd sy'n gwella o ran cywirdeb dogfennaeth tarddiad teuluol a gofnodir ar y cerdyn cais gydag "anhysbys" yn cael ei ddogfennu yn lle cael ei adael yn wag mewn achosion lle nad oedd tarddiad y teulu yn hysbys.

Roedd gostyngiad bach mewn gwallau o ran cwblhau'r cerdyn cais. Fodd bynnag, mae'r gwallau a nodwyd yn archwiliad 2019 yn debyg i archwiliadau blaenorol. Yn yr archwiliad hwn, nid oedd un y cant o'r cardiau cais

(16/1337) a dderbyniwyd yn cynnwys tarddiad teuluol mam neu dad y babi wedi'i ysgrifennu ar y cerdyn cais.

Yn dilyn yr archwiliad hwn, cynhyrchodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gymorth addysgu i weithwyr proffesiynol nodi'r wlad tarddiad ethnig yn fwy cywir. Mae hyn wedi cael ei gynnwys isod.



Countries of the World

When requesting screening for Sickle Cell and Thalassaemia you **must** document the **country** of family origin, not the continent

Countries of Europe:

Albania, Austria, Andorra, *Armenia, *Azerbaijan, Belarus, Belgium, *Cyprus, Czechia, Bosnia and Herzegovina, Bulgaria, Croatia, Denmark, Estonia, Finland, France, *Georgia, Germany, Greece, Hungary, Iceland, Italy, Kosovo, Latvia, Lichtenstein, Lithuania, Luxembourg, Malta, Moldova, Monaco, Montenegro, Netherlands, North Macedonia, Norway, Poland, Portugal, Romania, *Russia, San Marino, **Sardinia, Serbia, UK, Slovakia, Slovenia, Spain, Sweden, Switzerland, *Turkey, Ukraine, Vatican City

*These Countries span both Asia and Europe **Sardinia is not a country, but an autonomous region of the Republic of Italy however should be recorded separately

Countries of North America and the Caribbean:

Antigua and Barbuda, Bahamas, Barbados, Belize, Canada, Costa Rica, Cuba, Dominica, Dominican Republic, El Salvador, Grenada, Guatemala, Haiti, Honduras, Jamaica, Mexico, Nicaragua, Panama, St Kitts and Nevis, St Lucia, USA, St Vincent and the Grenadines, Trinidad and Tobago.

Countries of South America:

Argentina, Bolivia, Brazil, Chile, Colombia, Ecuador, Guyana, Paraguay, Peru, Suriname, Uruguay, Venezuela



Countries of Asia:

Afghanistan, Bahrain, Brunei, Bangladesh, Bhutan, Cambodia, China, India, Indonesia, Iran, Iraq, Israel, Japan, Jordan, *Kazakhstan, Kuwait, Kyrgyzstan, Laos, Lebanon, Malaysia, Maldives, Mongolia, Myanmar, Nepal, North Korea, Oman, Pakistan, Philippines, Qatar, Saudi Arabia, Singapore, South Korea, Sri Lanka, Syria, Taiwan, Tajikistan, Thailand, Timor Leste, Turkmenistan, UAE, Uzbekistan, Vietnam, Yemen.

*These countries span both Europe and Asia

Countries of Africa:

Algeria, Angola, Benin, Botswana, Burundi, Burkina Faso, Chad, Cabo Verde, Cameroon, Central African Republic, Comoros, Ivory Coast, Democratic Republic of Congo, Djibouti, Egypt, Equatorial Guinea, Eritrea, Eswatini, Ethiopia, Gabon, Gambia, Ghana, Guinea, Guinea Bissau, Kenya, Lesotho, Liberia, Libya, Madagascar, Malawi, Mali, Mauritania, Mauritius, Morocco, Mozambique, Namibia, Niger, Nigeria, Republic of Congo, Rwanda, Sao Tome and Principe, Senegal, Seychelles, Sierra Leone, Somalia, South Africa, South Sudan, Sudan, Tanzania, Togo, Tunisia, Uganda, Zambia, Zimbabwe

Countries of Oceania:

Australia, Fiji, Kiribati, Marshall Islands, Tonga, Micronesia, Nauru, Samoa, New Zealand, Palau, Tuvalu, Papua New Guinea, Solomon Islands, Vanuatu.

Sgrinio DNA di-gell y ffetws (cffDNA).

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru gwrdd â Gwasanaeth Gwaed Cymru a phennu cwrddas dichonoldeb cynnig profion DNA di-gell y ffetws ar gyfer genoteip RHD ffetysol i fenywod beichiog sy'n D negatif a heb eu sensiteiddio i antigen D.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru, cyflwynwyd papur briffio â bwriad lefel uchel i Bwyllgor Sgrinio Cymru er mwyn cael cytundeb i symud y ffrwd waith hon ymlaen. Cafodd y prosiect hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Sgrinio Cymru yn 2018. Enw'r prosiect yng Nghymru yw Sgrinio DNA di-gell y ffetws

Cyda dechrau pandemig byd-eang Covid-19, cafodd y prosiect ei atal dros dro gyda thrafodaethau'n ailddechrau ym mis Ionawr 2022 a'r cyfarfod bwrdd prosiect cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mehefin 2022.

Crynodeb

Bu hwn yn gyfnod prysur i Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r Tîm wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y rhaglenni sgrinio yn cael eu darparu a'u rheoli mewn ffordd gydlynol yn y byrddau iechyd. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ledled Cymru i wella'r llwybrau sgrinio, darparu deunydd llawn gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd a deunydd addysgol i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni wedi gwneud dewis gwybodus personol.

Mae gwaith rheolaidd Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau gan gynnwys monitro'r gwaith sgrinio, cefnogi cydlynwyr sgrinio cyn geni yn y byrddau iechyd, arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant a sonograffwyr arweiniol.

Cyflwynodd pandemig Covid-19 lawer o heriau i'r GIG yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, roedd llwyddodd y byrddau iechyd yng Nghymru i barhau i ddarparu sgrinio cyn geni o ansawdd uchel.

Edrych i'r Dyfodol

Yn 2022/23, bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn ceisio adeiladu ar y perthnasoedd cryf a'r ymrwymiad gan bob un o'r byrddau iechyd i barhau i sicrhau bod y rhaglenni sgrinio cyn geni yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

Bydd y datblygiadau allweddol yn cynnwys –

- Gweithredu a gwerthuso'r broses o symud tuag at drefn digidol yn gyntaf ar gyfer darparu gwybodaeth cyn prawf sgrinio cyn geni a sgrinio babanod.
- Adroddiad gwerthuso ar gyfer gweithredu'r prawf cynenedigol heb lawdriniaeth (NIPT) fel prawf wrth gefn yn dilyn prawf sgrinio siawns uwch am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau (Gorffennaf 2022)
- Gweithredu'r prawf DNA di-gell y ffetws ar gyfer genoteip RhD ffetysol (cffDNA). Drwy gynnig profion DNA di-gell y ffetws i fenywod beichiog sy'n RhD negatif, mae'n bosibl nodi statws RhD ffetws ac felly byddai'n dileu'r angen i fenywod RhD negatif sy'n cario ffetws RhD negatif gael pigiadau gwrth-D fel rhan o broffylaxis gwrth-D cyn geni arferol (RAADP) neu ar ôl digwyddiadau a allai sensiteiddio.
- Mae disgwyl i'r adolygiad o Bolisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru ddechrau ym mis Mai 2022.
- Adolygu Heintiau a Brechau yn ystod Beichiogrwydd: Canllaw i Weithwyr Iechyd Proffesiynol. Mae'r adnodd hwn yn rhoi canllawiau i Weithwyr Iechyd Proffesiynol ar reoli brechau yn ystod beichiogrwydd a phryd y dylid ac na ddylid cynnig profion serolegol yn ystod beichiogrwydd a pha brofion a allai fod yn berthnasol yn dilyn canfyddiadau uwchsain penodol.
- Pennu cwmplas y gallu yng Nghymru i gryfhau gwyliadwriaeth sifffilis yn ystod beichiogrwydd. Bydd casglu ac adrodd data canlyniad sgrinio ar gyfer sifffilis yn ystod beichiogrwydd yn cynorthwyo Sgrinio Cyn Geni Cymru a byrddau iechyd i asesu effaith, monitro perfformiad, adolygu'r holl achosion positif a nodi meysydd newydd ar gyfer archwilio ac ymchwil pellach.



GIG
CYMRU
NHS
Wales

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

- Bydd hyn yn arwain at wneud argymhellion yn lleol ac yn genedlaethol, cryfhau polisi ac ymarfer, a gwella gofal i famau a'u plant yng Nghymru.

Tîm cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod:

John Regan
Ann-marie Donaghy
Jemma Muggeridge

Pennaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru
Rheolwr Cymorth Rhaglen ar gyfer Sgrinio Mamau a Phlant
Rheolwr Cymorth Rhaglen Cynorthwyol, Sgrinio Mamau a Phlant

Kindry Williams
Laura Macdermott
Natasha Thomas

Cydlynnydd Rhaglen, Sgrinio Cyn Geni Cymru
Cydlynnydd Rhaglen, Sgrinio Cyn Geni Cymru
Cydlynnydd Rhaglen, Sgrinio Cyn Geni Cymru

Manylion cyswllt Sgrinio Cyn Geni Cymru

Ffôn: 02920 104433

E-bost: antenatal-screening@wales.nhs.uk

Neu yn ysgrifenedig at: Sarah Fox – Pennaeth Rhaglen, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 4, 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, CF10 4BZ



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales